

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod pwyllgor 29 Hydref, 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

Presennol: D Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Eifion Davies, Dewi Jones, Geraint Thomas, Dafydd Hughes. Hefyd yn bresennol roedd Stephen Teale o Gyngor Sir Conwy. Ymddiheuriad: Eryl Owain

Toiledau Cyhoeddus – estynnodd y Cadeirydd groeso i Stephen Teale, a aeth ymlaen i egluro'r opsiynau o gynlluniau i adnewyddu'r toiledau. Bydd y Cyngor Cymuned yn gallu dewis pa gynllun. Wedi derbyn penderfyniad y cyngor, byddai'n mynd allan i dendr gan obeithio y byddai'r gwaith yn dechrau yn Ionawr 2016.

Wedi trafodaeth drylwyr, penderfynwyd cael un toiled ar gyfer dynion a maerched a fyddai'n addas hefyd i'r anabl. Byddai angen talu 20c i'w ddefnyddio. Penderfynwyd ystyried ymhellach y syniad o ddarparu cyfleusterau i gael cawod yn rhan arall yr adeilad, wedi gwneud asesiad o faint o alw fyddai.

Cais Cynllunio – ystyriwyd cais cynllunio ar gyfer Erw'r Clochudd a phenderfynwyd cefnogi'r cais.